## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Rhagfyr 2023** |
| **Teitl:** | **Hysbysu'r Cyngor am apwyntio Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfnod hyd at 6 mis.** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I hysbysu'r Cyngor am apwyntio Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfnod hyd at 6 mis.** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor**

**Cyflwyniad**
Yn dilyn ymadawiad Mr Ricky Cooper, mae swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol) wedi dod yn wag yn ddiweddar. Mae hon yn rôl statudol ac yn hanfodol i'r Cyngor.

Ar hyn o bryd mae heriau recriwtio wedi'u cofnodi'n amlwg yn y sector gofal cymdeithasol ledled y DU ac ar bob lefel. Ar ôl ei weithredu ar ddechrau 2022, mae'r rhaglen Llesiant Gydol Oes yn parhau i ddatblygu ac mae'r angen i arweinydd profiadol allu parhau â'r cynnydd hwn ar unwaith yn hollbwysig. Mae rôl Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal hefyd yn gyfrifol am fod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor, rôl sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol.

Gan ystyried y materion hyn, derbyniwyd cynnig i benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro – Porth Cynnal am gyfnod hyd at 6 mis, drwy asiantaeth recriwtio gan y Panel Penodiadau, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies ynghyd ag Arweinwyr y Gwrthbleidiau, y Cynghorwyr Elizabeth Evans a Gareth Lloyd.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (2006) (fel y'u diwygiwyd) Atodlen 1, fel sydd wedi'u cynnwys yn Nogfen H, Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, Cyfansoddiad y Cyngor (gweler Atodiad A), yn caniatáu penodi prif swyddog o dan drefniant dros dro, ar yr amod ei fod yn para am gyfnod o ddim mwy na 12 mis.

**<u>Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)</u>**
Ddydd Iau, 16 Tachwedd 2023, ystyriodd Panel Penodiadau a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Bryan Davies, y Cynghorydd Elizabeth Evans a'r Cynghorydd Gareth Lloyd fel Arweinwyr Grŵp, wneud defnydd eilwaith o wasanaeth Ms Audrey Somerton-Edwards, gweithiwr cymdeithasol cymwys sydd â phrofiad rheoli uwch sylweddol.

Ar ôl ei ystyried, penderfynwyd gwneud defnydd o wasanaeth Ms Somerton-Edwards am gyfnod hyd at 6 mis fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro – Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail asiantaeth. Cychwynnodd y trefniant yn y rôl hon ar 13 Tachwedd 2023.

**<u>Recriwtio i rôl barhaol Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)</u>**
Bydd y penodiad dros dro yn caniatáu cynnal ymgyrch recriwtio gynhwysfawr ar gyfer penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn barhaol - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y broses benodi fel y rhagnodir yn Rhan 3.3 (Tabl 3) yn y Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Pwyllgor Rhestr Fer o 7 Aelod Etholedig. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor lunio rhestr fer o ymgeiswyr cymwys ar gyfer y rôl, i gyfweld â'r ymgeiswyr os oes angen cyn argymell eu penodi i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

Mae'r ymgyrch recriwtio eisoes wedi dechrau a bydd y Pwyllgor Rhestr Fer yn cael ei gynnull yn fuan.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na – nid oes newid polisi na gwasanaeth

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | AMH |
| **Cydweithio:** | AMH |
| **Cynnwys:** | AMH |
| **Atal:** | AMH |
| **Integreiddio:** | AMH |

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
Nodi gwneud defnydd o wasanaeth Ms Audrey Somerton-Edwards fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail asiantaeth am gyfnod hyd at 6 mis o 13 Tachwedd 2023.

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
Hysbysu'r Cyngor am benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**<u>Trosolwg a Chraffu:</u>**
AMH

**Fframwaith Polisi:**
Cyfansoddiad y Cyngor.

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Cefnogi'r gwaith o gyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor:
- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Mae Ms Somerton-Edwards wedi'i chyflogi ar sail asiantaeth, mae angen ystyried y gyfradd yn un fasnachol sensitif. O ganlyniad, mae'r wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys mewn eitem eithriedig (Atodiad B - EITHRIEDIG)

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim.

**Goblygiadau staffio:**
Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am hyd at gyfnod o hyd at 6 mis.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim.

**Risg(iau):**
- Bydd methu â phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol yn golygu nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio ag Adran 144 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fydd yn tynnu sylw'r Arolygiaeth Gofal Cymru, Rheoleiddiwr y sector gofal cymdeithasol.
- Bydd methu â phenodi uwch reolwr gofal cymdeithasol profiadol yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad y rhaglen Llesiant Gydol Oes ar adeg dyngedfennol.

**Pwerau Statudol:**
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) Atodlen 1, Rhan 1;
- Adran 144 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Papurau Cefndir:**
Dim.

**Atodiadau:**
a) Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion yn Dogfen H;
b) Eitem wedi'i Eithrio.

**Swyddog Adrodd:**
Eifion Evans, Prif Weithredwr

**Dyddiad:**
16 Tachwedd 2023